

Tasg 1

Pam mae chwarae'n bwysig ?

Wrth chwarae mae plant yn datblygu sgiliau creadigrwydd, iaith, emosiynau, deallusol a cymdeithasol. Mae'r sgiliau hyn i rhan fwyaf o blant yn dod yn naturiol, ond efallai fydd rhai plant angen help ychwanegol gan oedolion. Mae'n bwysig bod plant yn chwarae tu mewn a'r tu allan bydd hyn bod y plant yn chwarae yn amgylcheddau gwahanol a darganfod eu byd uniongyrchol. Wrth i'r plant archwilio amgylcheddau gwahanol maen nhw yn ymarfer syniadau a sgiliau newydd, maen nhw'n dangos dychymyg, mentro, ac yn datrys problemau eu hun neu gydag eraill. (Early Years Matters, 2021)

I sicrhau bod hawliau a datblygiad plant yn cael ei gefnogi, mae'n rhaid deall na ellir gwahanu sut mae'r plentyn yn chwarae, datblygu a dysgu. Mae hefyd llwyth o ffyrdd i gynllunio a hwyluso chwarae, gall hyn cael ei wneud yn ffordd sydd ddim yn colli y rhan hunangyfeiried y plentyn wrth iddyn nhw wneud ei ddewisiadau chwarae. (Scottish Government, 2015)

Beth yw chwarae hunangyfeiriedig ?

Ystyr chwarae hunangyfeiriedig yw'r chwarae sydd yn digwydd ar eu termau ei hun. Dyna le maent yn weithgar yn ei greu eu pwrpas. Wrth adael plant chwarae hunangyfeiriedig mae plant yn chwarae ar gyflymder eu hun. (Kozi Kidz, 2018) Mae chwarae hunangyfeiriedig yn adeiladu hunanhyder. Mae plant yn gwneud hwn trwy archwilio ar ben ei hun, bydd y plant yn sylweddoli bod nhw yn gallu gwneud cymaint dros ei hun. Mae chwarae hunangyfeiriedig yn gadael plant creu gemau a rheolau ei hun, bydd y plant yn teimlo'n llwyddiannus. Mae hunangyfeiriedig yn annog annibyniaeth. Mae'n caniatáu'r plant i brofi annibyniaeth o oedran ifanc, ond brofi yn amgylchedd diogel. Mae math hyn o chwarae yn ysgogi dychymyg, oherwydd mae rhaid i blant bod yn greadigol. (Ledendecker, M. 2020)

Meddai Sturrock ac Else (1998) (Scottish Government, 2015) mae'r gylchred chwarae yn cynnwys y holl chwarae o'r ciw cyntaf y plentyn, y dychweliad (return), yr ymateb y plentyn i'r dychweliad a'r datblygiad pellach o chwarae i'r pwynt lle mae'r chwarae wedi cwblhau.

Mathau o chwarae

Mae yna lwyth o fathau chwarae gwahanol sydd wedi cael ei hadnabod sef chwarae creadigol, chwarae cymdeithasol, chwarae adeiladu, chwarae dychmygus ac yn y blaen. (Play Types linked to the revised EYFS Areas of Learning, 2006)

Er enghraifft mae chwarae dychmygus yn gadael i blant mynegi teimladau positif a negatif, darganfod beth yw dewis a phrofi beth yw canlyniad penderfyniadau lluosog mewn amgylchedd diogel, sydd dan reolaeth. Enghreifftiau o chwarae dychmygus yw lladd y draig, esgus bod yn dywysog a chwarae mami's a dadi's. Buddion o chwarae dychmygus yw dysgu bondio'n gymdeithasol, parchu eraill, cyfathrebu a chydbwyso emosiynau personol ag emosiynau eraill. Hefyd y buddion o chwarae dychmygus pan fydd rhiant a phlentyn yn cymryd rhan yw pryder is, gwella canolbwyntio, cynyddu dealltwriaeth, a gwella sgiliau academaidd. (Knisley, K. 2020)

Math arall o chwarae rwyf yn mynd i drafod yw chwarae adeiladu. Mae chwarae adeiladu yn cynnwys teganau neu wrthrychau o'r amgylchedd chwarae i adeiladu rhywbeth newydd. Enghreifftiau o ddulliau adeiladu yw, fowldio, pentyrru a didoli, dyma rhai enghreifftiau. Mae chwarae adeiladu yn helpu datblygu llawer o sgiliau ac ymddygiadau, mae'n gynnwys sgiliau datrys problemau, sgiliau meddwl hyblyg, y sgiliau corfforol (modur mân a gros) mae'r sgil hyn yn angenrheidiol i reoli'r tegan neu'r deunydd a dewiswyd. Hefyd wrth i'r plentyn weithio gydag eraill, mae ymddygiadau tîm sydd yn angenrheidiol i gwblhau tasg. Y rhan fwyaf o'r amser rydym ni yn adnabod y math o chwarae hyn pryd mae plentyn yn adeiladu blociau, ond hefyd mae adeiladu cestyll tywod, llunio trac trên teganau ac archwilio deunyddiau rhydd. (Childhood, 2020)

Beth yw rôl oedolion ?

Mae rôl sydd gan oedolion i gefnogi chwarae hunangyfeiriedig yn hanfodol. Mae oedolion yn darparu lle ac amser ac adnoddau priodol i'r plant gallu chwarae yn y ffordd hon. Mae'r adnoddau hyn yn gynnwys bwcedi, blychau, dillad, hen flancedi, a fydd y pethau hyn yn ysbrydoli chwarae a thanio dychmyg plant. Mae oedolion yn arsylwi ac yn ymuno pan fydd y plentyn yn eu gwahodd a gwrando a gwylio cyn ymyrryd. Mae oedolion yn gwerthfawrogi i wahoddiad ac yn darparu amgylcheddau diogel ond heriol i'r plant. Mae

hyn yn cefnogi ac yn ymestyn dysgu a datblygu. (Early Years Matters, 2021) Meddai Vygotsky (darllenwyd yn Nilsson and Ferholt, 2014) bod ansawdd perthnasau cymdeithasol a diwylliannol plant yn hanfodol. Hefyd meddai trwy gymorth oedolion ar lefel cywir gall plant ddysgu a datblygu trwy chwarae. Mae Bruner (McInnes et al. 2011) hefyd yn credu bod oedolion yn bwysig. Meddai Bruner am y ddamcaniaeth cwricwlwm sbiral. Yn y damcaniaeth hwn mae angen amser ar blant i chwarae a dysgu sgiliau a'u gwybodaeth cyn symud ymlaen i gam nesaf o ddatblygiad.

Tasg 2

Pam mae risg yn fuddiol i blant ?

Mae risg yn caniatáu i blant darganfod eu hunain a gwrthio ei hun i alluoedd a chyfyngiadau. Mae hefyd yn caniatáu iddyn nhw gael lle i gynllunio manylion. Mae risg hefyd yn gwneud i blant teimlo bod nhw yn rheolaeth o beth sydd yn digwydd er enghraifft eu gweithredodd, eu dysgu a'u chwarae. Maen nhw yn dysgu ffiniau yn ffordd ddiogel, yn amgylchedd diogel. (Early Years Resources, 2018) Yn ôl y wefan Play Wales (2021) mae 'na lawer o fuddion o chwarae risg dyma rhai enghreifftiau datblygu corfforol ac emosiynol, herio ei hunain a chael profiad uniongyrchol. Maen nhw'n dweud bod pob plentyn a pherson ifanc angen a eisau cymryd risgiau corfforol ac emosiynol wrth iddynt dyfu lan. Mae hyn yn nid oes ots o ba ddiwylliant neu gefndir y maent y person yn dod o, neu pa anabledd neu ymddygiad maen nhw yn dod gyda.

Mae chwarae peryglus yn buddio plant, oherwydd bydd plant yn arbrofi i weld beth fydd yn digwydd, heb wybod y wir ganlyniad. Yn ôl Brussoni (Brittany Toole, dim dyddiad) os nad mae plant yn mynd yn ddigon pell gyda'u chwarae, bydd y chwarae yn ddiflas ac yn colli diddordeb. Ac os maen nhw yn mynd yn rhy bell y chwarae yn troi peryglus. Mae chwarae peryglus yn ystod blynyddoedd cynnar yn gallu helpu datblygu adeiladiad gwytnwch, cynyddu hunanhyder, galluoedd gweithredu gweithredol a hefyd helpu plant datblygu'r sgil rheoli risg.

Rôl y oedolyn

Mae rôl oedolyn yn bwysig, oherwydd mae'n hanfodol bod nhw yn cefnogi ac annog pob plentyn, bydd hyn yn cynyddu hyder a bydd y plentyn yn cynnig ar bethau newydd. Mae angen i'r oedolyn fod ar gael i siarad ac archwilio pethau sydd o ddiddordeb i blant ifanc, a hefyd ymateb i gwestiynau. Mae'n bwysig bod plant yn cael ei gorchwyllo yn yr amgylchedd tu fewn a thu allan, ond eto bod nhw cael y rhyddid i gymryd risgiau a rheoli chwarae eu hun. (Teach Early Years, 2021)

Yn ôl y wefan Early years resources (2018) maen nhw ddweud wrth greu amgylchedd diogel i blant, mae gan ymarferwyr dyletswydd gyfreithiol i ystyried risgiau a nodi a lleihau, ond hefyd dylen nhw ystyried pa risgiau sydd yn dderbyniol. Er enghraifft mae'r risg o ddisgyn o offer chwarae sydd yn fawr yn eithaf uchel, er hynny, mae'r risg o'r plentyn yn cael niwed yn lleihau, oherwydd bod goruchwyliaeth ddigonol, sicrhau bod yr offer yn cael ei gosod yn gywir er enghraifft i ffwrdd o ffenestri neu waliau, matiau damwain, dim gormod o blant yn chwarae ar yr un offer a hefyd rheolau penodol sydd wedi cael ei osod can oedolyn yn unol gydag anghenion a dealltwriaeth unigolyn. Wrth wneud hyn bydd yn blant yn buddio. Rhai buddion yw bydd y plant yn ehangu eu sgiliau, wrth iddyn nhw ddringo'n uwch, bydd y plant yn gwthio ei hunain i fynd yn bellach, neu yn cydbwyso am fwy.

Asesiad risg

Mae'n ofynnol bod ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn cynnal asesiad risg. Mae asesiad risg yn cynnwys adnabod pa agweddau o'r amgylchedd sydd rhaid cael eu hasesu yn gyson. Yn yr asesiad bydd rhaid i'r ymarferwyr blynyddoedd cynnar penderfynu beth ddylid cael ei wneud i atal niwed i blentyn. Ar ôl i'r asesiad cael ei chynnal y cam nesaf yw penderfynu pa weithredoedd perthnasol sydd mynd i gael ei chymryd, a diweddarau gweithredoedd pryd mae'n angenrheidiol. (Teach Early Years, 2021)

Mae asesiad risg yn rhywbeth y bydd ymarferwyr yn gwneud yn naturiol mewn amgylcheddau gwahanol. Enghraifft o hyn yw cerdded mewn amgylchedd gaeafol, wrth asesu'r risg efalla byddwn yn dewis gwisgo esgidiau gyda gafael da, neu efallai osgoi'r darn o dir sydd wedi gorchuddio gyda rhew. Risg arall yw cerdded mewn i ystafell dysgu/chwarae a gweld cadair sydd wedi cwmpo drosodd, bydd yr ymarferwyr yn codi'r

gadair lan, bydd hyn yn sicrhau bod neb yn cwympo drosti. Yn amgylchedd blynyddoedd cynnar bydd y mathau o risgiau yn amrywio o ddifrifoldeb. (CYPSINFO, dim dyddiad)

Enghraifft o risg yw yn y maes chwarae, os mae nodwyddau ar y llawr neu offer sydd wedi torri yn achos i ymyrraeth ymarferwyr. Mae hyn perygl sydd yn gallu arwain at lawer o ddifrod i'r plentyn. Wrth symud y planhigyn sydd gyda drain ar lefel llygad, mae hyn yn rhywbeth gall y plentyn helpu gyda. Yn hytrach y plentyn yn symud y planhigyn ar ben ei hun mae Brussoni (Brittany Toole, dim dyddiad) yn cynghori asesu'r sefyllfa gyda'r plentyn a chael y plentyn meddwl am ffyrdd arall i symud y planhigyn sydd yn ddiogel. Mae'n syniad da i gydbwyso'r risg a'r buddion, meddai Brussoni.

Tasg 3

Dull arsylwi cyfnod rhedeg

Mae cyfnod rhedeg yn arsylwad sydd yn asesu gweithgaredd y plentyn fel mae'n digwydd. Mae hyn yn cael eu gwneud gan fesur ei berfformiad a'i ymddygiad mewn amrywiaeth o dasgau penodol. Mae'r rhan nesaf yn hanfodol, oherwydd mae rhaid i'r ymarferwyr sydd yn arsylwi ysgrifennu i lawr popeth sydd yn digwydd. i wneud hyn mae rhaid wir ganolbwyntio a hefyd cael rhywfaint o ymarfer.

Mae arsylwad cyfnod rhedeg yn aml yn cael ei ddefnyddio i asesu sgiliau darllen y plentyn, ond mae hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio yn ystod eang o wahanol gymwysiadau. Mae'r pwrpas ddim yn bwysig, oherwydd bydd wastad casgliad ar ddiwedd y ddogfen, lle fydd yr ymarferwyr sydd yn arsylwi yn gallu dod i gasgliad am yr ymddygiadau mae'r plentyn wedi eu dangos yn ystod yr arsylwad.

Mae cyfnod rhedeg yn asesiad sydd yn rhestr fanwl o ymddygiadau, diddordebau, sgiliau datblygu a gweithgareddau eraill plentyn. Mae hyn offeryn defnyddiol iawn wrth asesu plentyn a darganfod pa gam o ddatblygiad maen nhw ar. Mae'n hefyd yn ddefnyddiol i gynllunio cynllun addysgol i sicrhau bod y plentyn yn gallu symud ymlaen yn ei ddatblygiad. Mae'r ffordd hon o arsylwi hefyd yn ffordd o nodi a hefyd darganfod os oes unrhyw oedi datblygiadol neu heriau dysgu posibl. Bydd y canlyniadau y mae ymarferwyr

darganfod pob amser yn cael eu rhannu gyda rhieni neu warcheidwaid. Wrth ysgrifennu cyfnod rhedeg, mae'n bwysig eich bod yn ffocysu ar ymddygiad y plentyn a dim byd arall. (OnlineSchoolReports, 2021)

Mae cyfnod rhedeg yn cael ei ysgrifennu wrth i'r weithred datblygu o'ch blaen, felly mae'n bwysig i ddefnyddio'r amser presennol wrth ysgrifennu. Mae'n hefyd yn bwysig i fod yn gadarnhaol ac yn wrthrychol, a hefyd mae rhaid cofio defnyddio iaith ddisgrifiadol. Mae'n hefyd yn bwysig eich bod yn rhoi eich hun digon o amser i wrth ysgrifennu cyfnod rhedeg. Er enghraifft cynllunio ymlaen llaw pryd bydd yr amser iawn arsylwi, ble bydd y lleoliad mwyaf cyfleus, yn olaf faint o amser sydd angen arnoch i gwblhau'r arsylwad yn effeithiol. Mae'r proses o ysgrifennu cyfnod rhedeg yn gallu fod yn ddwys a blinedig. Y peth allweddol i ysgrifennu cyfnod rhedeg yw cynllunio eich amser a threfnu o flaen amser. (Infant&Toddler, 2014)

Mae'r asesiad hyn yn gallu cael ei wneud pob 2 i 4 wythnos. Ond gall darllenwyr cynnar cael eu hasesu pob 3 i 5 wythnos. Bydd cynnal yr asesiad hwn yn rheolaidd yn sicrhau bod y plentyn neu'r aseswyr ddim yn colli diddordeb a hefyd datgelu effeithiolrwydd yr asesiad a'r holl strategaethau ymyrraeth ac addysgol. (OnlineSchoolReports, 2021)

Manteision a anfanteision y dull

Y manteision o ddefnyddio'r dull yma yw bod y dull yn fanwl, oherwydd wrth i chi asesu'r plentyn mae rhaid ysgrifennu pob peth lawer wrth iddo'n digwydd. Mae'n hefyd yn benodol, oherwydd mae rhaid bod yn fanwl wrth ysgrifennu. Mae'r dull hyn yn cael eu defnyddio am amrywiaethau o resymau, felly mae'n ddull cyfleus.

Yr anfanteision o'r asesiad cyfnod rhedeg yw mai'n cymryd llawer o amser, oherwydd mae rhaid ysgrifennu popeth lawr wrth iddo ddigwydd ac wedyn ysgrifennu'r arsylwad lan i gyd. Mae'n cynnwys arsylwi dwys a llawer o ffocws. Mae cyfnod rhedeg yn arsylwad mae rhaid i chi edrych ar y plentyn trwy asesiad i gyd i weld beth maen nhw yn eu gwneud. Gall y plentyn teimlo ei fod yn cael ei wyllo. Yn y pendraw bydd y plentyn yn teimlo o dan bwysau a straen. (SlideShare ,2016)

Tasg 4

Pam mae chwarae yn bwysig wrth arsylwi ?

Mae arsylwi yn ffordd o helpu ymarferwyr gweld sut mae plant yn eu rhyngweithio â phlant arall, a hefyd darganfod y pwysigrwydd o ryngweithio wrth iddynt ddod i nabod a chefnogi'r plant. Mae arsylwi hefyd yn ffordd i'r ymarferwyr gysylltu â phlant a ffeindio allan beth mae eu cysylltiau ag eraill a beth mae ei amgylchedd fel. Y plant bydd yn teimlo eu bod yn derbyn gofal ac sydd yn teimlo'n ddiogel yn rhyngweithio ac ymgysylltu ag eraill yn fwy tebygol o ennill sgiliau, ac yn fwy tebygol i lwyddo yn ysgol. (PennState Extension, 2018)

Wrth arsylwi plant pan iddynt yn archwilio, chwarae a dysgu, gall ymarferwyr sicrhau bod y plant yn datblygu i'r gam disgwylidig, gweld os yw'r amgylchedd a'r adnoddau fel tegau neu offer yn ysgogi eu datblygiad. Yn olaf adnabod pa gefnogaeth fydd angen ar y plentyn yn y dyfodol er mwyn gwella diddordeb, sgiliau a gwybodaeth newydd. Mae arsylwi hefyd yn beth hirdymor, mae'n cynnwys monitro ac adolygu arsylwadau a dogfennu'r arsylwadau yn gyson i sicrhau bod plant yn datblygu at y camau disgwylidig. Mae arsylwi yn darganfod os oes problem ac yn adnabod yr ardaloedd mae'r plentyn yn cael trafferth a'i ddatrys yn gyflym. Bydd hyn yn sicrhau bod y plentyn yn cael cefnogaeth addas ar gyfer ei materion. (AziloTraining, 2021)

Mae 'na lawer o resymau pam rydyn yn arsylwi plant yn chwarae, gall amrywiaeth o ffactorau dylanwadu, ond pwrpas cyffredinol yw darganfod mwy am y plentyn neu grŵp o blant. Darganfod fel mae plant yn ymateb i rai gweithgareddau a sut mae'r plentyn yn datblygu a'i sgiliau. Mae hefyd yn bwysig bod yr ymarferwyr yn arsylwi fel mae'r plentyn yn rhyngweithio rhwng oedolyn a phlant eraill a hefyd fel mae iaith y plentyn yn datblygu. Mae arsylwi hefyd yn helpu tracio patrymau ymddygiad a darganfod pwy mae'r plentyn yn cymdeithasu gyda. (Early Years Careers, 2016)

Pan fydd yr ymarferwyr yn cymryd cam nôl ac yn arsylwi plentyn. Wrth wneud hyn bydd yr ymarferwyr deall cryfderau neu wendidau'r plentyn yn fwy o fanylder. Wrth arsylwadau, gall ymarferwyr helpu gwella'r amgylchedd mae'r plentyn yn ei chwarae ynddo a hwyluso dysgu. Trwy arsylwi ymddygiad plentyn bydd yr ymarferwyr yn gallu adnabod anghenion

arbennig efallai bydd y plentyn gyda. Hefyd mae'n dangos pa mor dda mae sgil cyfathrebu'r plentyn a sut mae'r plentyn yn rhyngweithio a'u cyfoedion. Bydd yr ymarferwyr yn dod i ddeall y plentyn yn well a hefyd deall pam efallai bod y plentyn yn ymddwyn yn ffordd heriol. (Early Childhood Education Blog, 2020)

Sut gall oedolion gefnogi ?

Mae arsylwi yn ffordd o ddeall plant a darganfod mwy fel unigolyn. Mae hyn yn rhan gyflawn o'r cylch asesu a chynllunio a sail gadarn am adlewyrchiad. Mae arsylwi yn agwedd hanfodol o rôl yr ymarferwyr a chael blaenoriaeth o ran hyfforddiant ac ymarfer pob dydd. Yn gyffredinol mae arsylwi ymwneud â gwylio ystumiau, gweithredoedd, ymddygiadau, ymadroddion a hefyd gwrando ar fel maen nhw yn rhyngweithio gyda phobl eraill. Hefyd efallai weithiau bydd rhaid ymuno a chwarae, sgwrsio ac ymateb i gwestiynau. Mae arsylwi bob amser yn agwedd mae rhaid bod yn sensitif a pharchus tuag at chwarae plant. Yn olaf cofiwch fod rhaid cael agwedd agored i beth mae'r plentyn am wneud. (Nursery world, 2006)

Gall y rheini cefnogi hyn trwy roi gwybodaeth i'r ymarferwyr am blentyn nhw. Wrth gael fwy o wybodaeth bydd ymarferwyr gallu asesu'r plentyn yn fwy manwl darganfod datblygiad chwarae a dysgu'r plentyn. Mae'r wefan hyn yn ddweud y fwyaf o oedolyn sydd ym mywyd plentyn sydd yn cyfrannu at ddatblygiad, gwell bydd yr arsylwad. (Nursery world, 2006)

Awgrymodd Howard a McInnes (2012) bod lles emosiynol o ran y raddfa leuven's un cynyddu pan oedd y plant yn gwneud gweithgareddau oedd fwy fel gweithgaredd chwarae. Mae hyn dweud wrtho fod buddion i arsylwi ac asesu plant wrth iddynt chwarae. Wrth i'r plant cael ei arsylwi trwy chwarae roedd ei chymhelliant yn cynyddu wrth iddyn nhw wneud y gweithgaredd yn rhydd. Hefyd roedd y plant yn cymryd fwy o sylw yn y gweithgaredd. Mae'n hefyd yn ddweud bod y plant oedd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd oedd ddim yn chwarae yn arddangos ymddygiad negyddol, ddim yn cymryd llawer o sylw yn y gweithgaredd. Mae hyn yn dangos bod cyfranogiad yn uwch yn y plant sydd yn cael ei arsylwi trwy chwarae, felly bydd y plant hyn yn gwella datblygiad holistaidd.

Rhestr Cyfeirnod

AziloTraining (2020) *The Importance of Observation in Childcare Settings*. Ar gael o: <https://azilotraining.com/2019/08/16/the-importance-of-observation-in-childcare-settings>. (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 10/01/2021)

Childhood 101. (2020) *Types of Play: Constructing*. Ar gael o: <https://childhood101.com/types-of-play-constructing/> (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 29/12/2020)

CYPSINFO (dim dyddiad) *Risk Assessment in Early Years*. Ar gael o: <https://cyps.northyorks.gov.uk/sitemap>. (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 04/01/2021)

Early Childhood Education Blog. (2020) *The Importance of Observation in Early Childhood Education*. Ar gael o: <https://blog.himama.com/assessing-toddler-development-through-observation/>. (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 09/01/2021)

Early years careers. (2016) *Observing children's play*. Ar gael o: <https://www.earlyyears-careers.com/eyc/latest-news/observing-childrens-play/>. (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 12/01/2021)

Early years matters. (2021) *Play & Learning*. Ar gael o:

<https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/a-unique-child/play-learning/>

(Dyddiad

darllenwyd y dudalen: 06/01/2021)

Early Years resources. (2018) *The Importance of Risky Play in Childhood*. Ar gael o:

<https://www.earlyyearsresources.co.uk/blog/2018/10/risky-play-importance>

(Dyddiad

darllenwyd y dudalen: 03/01/2021)

Howard, J. a McInnes, K. (2012) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not play on emotional well-being', *Child: care, health and development*, 39 (5) tt. 737–742.

Infant&Toddler.(2014) *RUNNING RECORDS* . Ar gael o:
http://toddlers.ccdmd.qc.ca/observing/running_records. (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 13/01/2021)

Knisley, K. (2020) *Ready, Set, Pretend: Ideas for Imaginative Play*. Ar gael o:
<https://www.healthline.com/health/childrens-health/imaginative-play>. (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 01/01/2021)

Kozi Kidz. (2018) *"I'm bored!" - How to encourage self directed play*. Ar gael o:
<https://www.kozikidz.com/blog/im-bored-how-to-encourage-self-directed-play> (Dyddiad darllenwyd y dudalen : 29/12/2020)

Ledendecker, M. (2020) *Why Encourage Self-Directed Play?*. Ar gael o:
<https://www.berkshiremontessori.org/self-directed-play> (Dyddiad darllenwyd y dudalen :
29/12/2020)

McInnes et al. (2011). *Differences in practitioners' understanding of play and how this influences pedagogy and children's perceptions of play*. Abingdon: Routledge

Nilsson,M and Ferholt, B. (2014). *Vygotsky's theories of play, imagination and creativity in current practice: Gunilla Lindqvist's "creative pedagogy of play"* .
Universidade Federal de Santa Catarina

Nursery world. (2006) *Observing children*. Ar gael o:
<https://www.nurseryworld.co.uk/news/article/observing-children> . Dyddiad darllenwyd y
dudalen: 11/01/2021)

OnlineSchoolreport. (2021) *What Is a Running Record?*. Ar gael o:
<https://www.onlineschoolsreport.com/what-is-a-running-record-in-early-childhood-education/> (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 11/01/2021)

PennState Extension. (2018) *Why Observe Children?*. Ar gael o:
<https://extension.psu.edu/programs/betterkidcare/news/2018/why-observe-children>.
(Dyddiad darllenwyd y dudalen: 13/01/2021)

Play Types linked to the revised EYFS Areas of Learning. (2006) *Play Types linked to the revised EYFS Areas of Learning*. Ar gael o:

<file:///C:/Users/User/Downloads/Play%20Types%20linked%20to%20EYFS%20Areas%20of%20Learning.pdf>. (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 28/12/2020)

Play Wales. (2021) *Play and challenge*. Ar gael o : <https://www.playwales.org.uk/eng/playandchallenge> (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 03/01/2021)

Scottish Government (2015) *Play Strategy For Scotland: Learning About Play - Investigating Play Through Relevant Qualifications In Scotland* . Ar gael o: <https://www.gov.scot/publications/play-strategy-scotland-learning-play-investigating-play-through-relevant-qualifications-scotland/pages/5/> (Darllenwyd y dudalen: 03/01/2021)

SlideShow. (2016) *Running records technique*. Ar gael o: <https://www.slideshare.net/edvin29/running-records-technique> (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 14/01/2021)

Teach Early Years. (2021). *Health & Safety in the Nursery*. Ar gael o: <https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/health-safety-in-the-nursery>. (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 04/01/2021)

Toole,B. (dim dyddiad) *Risky play for children: Why we should let kids go outside and then get out of the way*. <https://www.cbc.ca/natureofthings/features/risky-play-for-children-why-we-should-let-kids-go-outside-and-then-get-out> (Dyddiad darllenwyd y dudalen: 03/01/2021)

